

CYNGOR SIR YNYS MÔN

Adroddiad i:	PWYLLGOR GWAITH
Dyddiad:	19 GORFFENAF 2022
Pwnc:	CYFRIFON TERFYNOL DRAFFT 2021/22 A DEFNYDDIO CRONFEYDD WRTH GEFN A BALANSAU
Aelod(au) Portffolio:	Y CYNGHORYDD ROBIN WILLIAMS, DEILYDD PORTFFOLIO - CYLLID
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	MARC JONES, CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151
Awdur yr Adroddiad:	CLAIRE KLIMASZEWSKI
Ffôn:	01248 752133
E-bost:	ClaireKlimaszewski@ynysmon.llyw.cymru
Aelodau Lleol:	Amherthnasol

A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr drafft ar gyfer 2021/22 a'r Fantolen ddrafft fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2022.

Darperir gwybodaeth fwy manwl am falansau cyffredinol y Cyngor a'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig ac mae'r adroddiad yn rhoi manylion am sut y bwriedir defnyddio'r cronfeydd wrth gefn a'r balansau yn 2022/23 ac yn y dyfodol.

Mae'r adroddiad yn nodi lefelau'r balansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn clustnodedig sydd, ym marn broffesiynol Swyddog Adran 151 y Cyngor, y lefelau sydd eu hangen i gwrdd ag unrhyw risgiau ariannol a wynebwr gan y Cyngor, i gwrdd ag unrhyw ymrwymadau cyllido presennol a wnaed ac mae'n ystyried unrhyw gyfyngiadau penodol ar ddefnydd y cyllid e.e. cyfyngiadau a osodir gan amodau grant. Gall lefel y risg a wynebwr gan y Cyngor newid a chedwir golwg ar lefelau'r balansau cyffredinol a'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig dros y misoedd nesaf.

Mae'n bwysig nodi nad yw'r ffigyrau hyn wedi cael eu harchwilio ac y gallant newid o'r herwydd. Ar ôl cwblhau'r archwiliad, cyflwynir adroddiad ar y Datganiad Cyfrifon terfynol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cyngor llawn.

Argymhellion:-

1. Bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi'r prif ddatganiadau ariannol drafft (heb eu harchwilio) ar gyfer 2021/22. Cyhoeddir y Datganiad Cyfrifon llawn ar gyfer 2021/22 ar y ddolen a ganlyn:-

<https://www.ynysmon.llyw.cymru/cy/Cyngor/Cyllideb-y-Cyngor/Datganiad-or-cyfrifon.aspx>

2. Bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi'r sefyllfa o ran y balansau cyffredinol, sef £12.050m, a'i fod yn cymeradwyo creu'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig newydd a nodir yn Nhabl 4, a ddaw i gyfanswm o £9.371m.
3. Bod y Pwyllgor Gwaith yn ystyried Atodiad 4 ac yn cymeradwyo'r balans o £23.181m fel cyfanswm y cronfeydd wrth gefn clustnodedig ar gyfer 2021/22 (£14.079m yn 2020/21). Mae hyn £9.102m yn uwch na 2020/21 ac mae'n cynnwys £9.371m o gronfeydd wrth gefn newydd, fel yr argymhellir uchod, a newid o £0.269m yn y cronfeydd wrth gefn presennol (er bod hyn yn cynnwys symiau sydd wedi cynyddu a gostwng, sydd bron yn gwneud yn iawn am ei gilydd, yn y cronfeydd wrth gefn presennol).
4. Bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi'r sefyllfa o ran balansau ysgolion, sef £7.827m.

5. Bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi balans y CRT o £12.333m.
6. Bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r cynnydd o £0.261m yng Nghronfeydd wrth Gefn Gwasanaethau i £1.625m, yn unol â Pholisi Cronfeydd wrth Gefn Gwasanaethau 2019/20 (fel a nodir yn Atodiad 1, Tabl 3).

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Amherthnasol

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith

Mae defnyddio cronfeydd wrth gefn a balansau wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith yn unol â phenderfyniad y Cyngor ynghylch cyllideb refeniw a chyfalaf y Cyngor ar 10 Mawrth 2022.

CH – A yw'r polisi hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ydi

DD – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):

1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Dyluniwyd y defnydd arfaethedig o gronfeydd wrth gefn a balansau i fynd i'r afael â rhai risgiau a materion y mae'r Cyngor yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Bydd hyn yn caniatáu i'r Cyngor ymgymryd â phrosiectau fydd yn ei gynorthwyo i gwrdd ag anghenion hirdymor yr Ynys a'i phreswylwyr.
2	A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut?	Ydi - bydd mynd i'r afael â'r risgiau yn awr yn lliniaru'r risgiau hynny a'n atal costau yn y dyfodol.
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod â'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy.	Na
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini a effeithir yn uniongyrchol gan y penderfyniad? Esboniwch sut.	Na
5	Nodwch unrhyw effeithiau posibl byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a amddiffynnir gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Nid yw'r penderfyniad y gofynnir amdano yn yr adroddiad hwn yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar y grwpiau hynny a amddiffynnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Byddai unrhyw gynlluniau i ddefnyddio'r cyllid yn ystyried yr effaith ar y grwpiau hyn cyn gwneud penderfyniad terfynol i fwrw ymlaen ag unrhyw brosiect.

6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith bosibl byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rheini sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	Nid yw'r penderfyniad y gofynnir amdano yn yr adroddiad hwn yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. Byddai unrhyw gynlluniau i ddefnyddio'r cyllid yn ystyried yr effaith ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol cyn gwneud penderfyniad terfynol i fwrw ymlaen ag unrhyw brosiect.
7	Nodwch unrhyw effeithiau posibl byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar drin yr iaith Gymraeg ddim yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg.	Dim effaith ar yr iaith Gymraeg.

E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?

Beth oedd eu sylwadau?

1	Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol)	Mae'r Prif Weithredwr a'r UDA wedi ystyried yr adroddiad cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor. Ymgorfforwyd sylwadau aelodau'r UDA yn yr adroddiad.
2	Cyllid / Adran 151 (gorfodol)	Roedd y Swyddog Adran 151 yn gyfrifol am adolygu'r adroddiad.
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)	Mae'r Swyddog Monitro yn aelod o'r UDA ac ystyriwyd unrhyw sylwadau a wnaed ynghyd â holl sylwadau aelodau'r UDA.
4	Adnoddau Dynol	Ymgynghorwyd â'r Pennaeth Gwasanaeth mewn perthynas â chynigion sy'n cael effaith ar faterion AD.
5	Eiddo	Ymgynghorwyd â'r Pennaeth Gwasanaeth mewn perthynas â chynigion sy'n cael effaith ar eiddo'r Cyngor.
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	Ymgynghorwyd â'r Pennaeth TG mewn perthynas â chynigion sy'n cael effaith ar wasanaeth TG y Cyngor neu systemau TG.
7	Caffael	Amherthnasol
8	Sgriwtini	Bydd y datganiad cyfrifon drafft yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ar 26 Gorffennaf 2022.
9	Aelodau Lleol	Amherthnasol

F – Atodiadau

- Atodiad 1 – Adroddiad ar y prif ddatganiadau ariannol, balansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn clustnodedig
- Atodiad 2 – Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Drafft 2021/22
- Atodiad 3 – Mantolen Ddrafft fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2022
- Atodiad 4 – Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig fel ag yr oeddent ar 31 Mawrth 2022

FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):

- Adroddiad Alldro Cyllideb Refeniw 2021/22 – Pwyllgor Gwaith, 28 Mehefin 2022

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Mae'r adroddiad yn nodi'r prif ddatganiadau ariannol drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22 ac mae'n cyflwyno crynodeb o falansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn clustnodedig y Cyngor. Mae'r adroddiad yn nodi lefelau'r balansau cyffredinol a'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig sydd, ym marn broffesiynol Swyddog Adran 151 y Cyngor, y lefelau sydd eu hangen i gwrdd ag unrhyw risgiau ariannol a wynebir gan y Cyngor, i gwrdd ag unrhyw ymrwymadau cyllido presennol a wnaed ac mae'n ystyried unrhyw gyfyngiadau penodol ar ddefnydd y cyllid e.e. cyfyngiadau a osodir gan amodau grant.

2. CEFNDIR

2.1. Mae Rheoliad 10 Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, fel y diwygiwyd nhw gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018, yn nodi bod rhaid i'r prif swyddog ariannol cyfrifol lofnodi a dyddio'r datganiad cyfrifon a thystio ei fod yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Cyngor erbyn dim hwyrach na'r 31ain o Fai yn union ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Yna mae'n rhaid i'r Cyngor gymeradwyo a chyhoeddi ei ddatganiadau ariannol archwiliedig erbyn y 31ain o Orffennaf yn union ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

2.2. Serch hynny, ar gyfer 2021/22, mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod y gallai'r pandemig barhau i effeithio ar adnoddau staff awdurdodau lleol ac mae'r amserlen wedi cael ei hystyngi, gan ganiatáu hyd at 31ain o Awst 2022 i Gynghorau lofnodi eu datganiad cyfrifon drafft a hyd at y 30ain o Dachwedd 2022 iddynt gyhoeddi eu datganiadau ariannol archwiliedig.

2.3. Llofnodwyd y datganiadau ariannol drafft ar gyfer 2021/22 gan Swyddog Ariannol Cyfrifol y Cyngor ar 17 Mehefin 2022, ac mae'r gwaith o archwilio'r cyfrifon wedi dechrau. Y bwriad yw y bydd yr archwiliad yn cael ei gwblhau yn ystod yr haf, a'r cyfrifon archwiliedig terfynol yn cael eu cymeradwyo erbyn 30 Tachwedd 2022.

3. DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR DRAFFT 2021/22

3.1. Caiff y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES) Drafft ar gyfer 2021/22 ei gyflwyno yn Atodiad 2.

3.2. Mae'r datganiad yn crynhoi'r gost o ddarparu gwasanaethau yn 2021/22 yn unol â'r gofynion cyfrifo statudol ac mae'n cynnwys Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) mewn un datganiad ariannol. Mae'r CIES yn cynnwys costau cyfrifo statudol, megis dibrisiant ac addasiadau ar gyfer pensiwn, na chodir amdanynt yn erbyn y Dreth Gyngor ac, felly, maent yn cael eu canslo allan cyn penderfynu ar y sefyllfa derfynol mewn perthynas â balansau cyffredinol, cronfeydd wrth gefn clustnodedig, balans cyfrif y CRT a balansau ysgolion. Felly, nid oes modd tynnu cymhariaeth uniongyrchol rhwng y CIES a'r adroddiadau alldro a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Mehefin 2022.

3.3. Mae'r CIES yn dangos mai £147.691m oedd cost net y gwasanaethau, gyda gwarged o £5.94m ar ddarparu gwasanaethau. Yna, gwneir addasiadau ar gyfer ailbriso asedau ac ail-fesur y rhwymedigaethau pensiwn, a rhydd hynny warged net terfynol ar gyfer y flwyddyn o £83.415m. Yna gwneir addasiadau, fel y dangosir yn Nhabl 1 isod, i benderfynu ar y symudiad i gronfeydd wrth gefn a balansau. Manylir ar yr addasiadau yn nodyn 7 yn y Datganiad Cyfrifon drafft.

Tabl 1

Cysoni'r CIES i'r Cyfraniad i neu o'r Cronfeydd Wrth Gefn a'r Balansau ar gyfer 2021/22

	£'m	£'m
Cyfanswm Cost / (Gwarged) yn unol â'r CIES		(83,415)
Canslo allan y gwarged ar Ailbrisio Asedau ac Ail-fesur y Rhwymedigaethau Pensiwn	77,475	
Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifo a'r Sail Gyllido o dan y Rheoliadau	(11,852)	
		65,623
Cyfraniad (i) / o Gronfeydd Wrth Gefn a Balansau		(17,792)

Dangosir y symudiadau yng nghronfeydd wrth gefn a balansau'r Cyngor yn Nhabl 2 isod:-

Tabl 2

Crynodeb o'r Symudiadau yng Nghronfeydd Wrth Gefn a Balansau'r Cyngor ar 31 Mawrth 2022

	Cronfa Wrth Gefn Cronfa'r Cyngor	Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig Cronfa'r Cyngor	Cronfa Wrth Gefn y Cyfrif Refeniw Tai (CRT)	Cronfeydd Wrth Gefn Ysgolion	Cronfeydd Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn y gellir eu defnyddio
Eitemau sy'n effeithio ar Gronfa Wrth Gefn y Cyngor 2021/22	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Balans Agoriadol Cronfa Wrth Gefn Cyffredinol y Cyngor 1 Ebrill 2021	(11,437)	(14,079)	(9,723)	(3,974)	(767)	(39,980)
Gor / (Tan)wariant Net 2021/22	(4,798)	-	(3,345)	(3,853)	(1,614)	(13,610)
Balans y Cyngor ar ôl y gor / (tan)wariant	(16,235)	(14,079)	(13,068)	(7,827)	(2,381)	(53,590)
Trosglwyddiadau net o / (i) Gronfeydd Wrth Gefn ar gyfer cyllid a gymeradwywyd	4,185	(9,102)	735	-	-	(4,182)
Balans y Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol ar 31 Mawrth 2022	(12,050)	(23,181)	(12,333)	(7,827)	(2,381)	(57,772)

4. MANTOLEN DDRAFFT FEL AG YR OEDD AR 31 MAWRTH 2022

4.1. Mae'r fantolen ddrafft fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2022 i'w gweld yn Atodiad 3.

4.2. Bu cynnydd o £83.415m yng ngwerth asedau net y Cyngor, o £164.162m y llynedd i £247.577m ar 31 Mawrth 2022. Bu cynnydd o £11.725m yng ngwerth asedau tymor hir y Cyngor, yn bennaf oherwydd gwariant cyfalaf ar eiddo, offer a chyfarpar y Cyngor. Roedd cynnydd o £25.14m mewn asedau cyffredol o ganlyniad i gynnydd ym malansau arian y Cyngor o £23.238m i £51.978m, gan gynnwys buddsoddiad tymor byr o £7.5m. Y rheswm am y cynnydd sylweddol hwn oedd cyllid grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, yn cynnwys Grant Cymorth Refeniw ychwanegol a'r ffaith fod Llywodraeth Cymru yn cyllido costau ychwanegol a cholledion incwm oherwydd Covid-19.

4.3. Roedd cynnydd o £10.135m yn y rhwymedigaethau cyfredol, oherwydd cynnydd mewn credydwy'r a chynnydd mewn grantiau a dderbyniwyd ymlaen llaw. Roedd cynnydd o £2.4m mewn benthycia tymor byr, wrth i fenthyciadau a ddynodwyd yn fenthyciadau tymor hir yn y gorffennol ddod yn daladwy o fewn blwyddyn h.y. 31 Mawrth 2023, a dderbyniwyd benthyciad Salix di-log ar gyfer prosiectau a fydd yn cynorthwyo'r Cyngor i weithio tuag at ei darged carbon sero net erbyn 2030. Mae grantiau gwerth cyfanswm o £7.99m a dderbyniwyd ymlaen llaw yn rhan sylweddol o'r arian a oedd yn cael ei ddal ar 31 Mawrth 2022. Bu gostyngiad o £56.681m yn y rhwymedigaethau tymor hir yn ystod y flwyddyn. Y rheswm pennaf am hyn yw gostyngiad o £55.062m yn y rhwymedigaethau pensiwn. Y rheswm am hyn yw enillion uwch na'r disgwyl ar fuddsoddiadau ac mae'r actwari wedi newid y ffactor gostyngiad a ddefnyddir oherwydd y newidiadau i gyfradd sylfaenol Banc Lloegr. Nid yw hyn yn effeithio ar falansau'r Cyngor gan mai prisiau at ddibenion cyfrifyddu ydyw.

5. BALANS Y GRONFA GYFFREDINOL

5.1. Roedd Balans Cronfa Gyffredinol y Cyngor ar 31 Mawrth 2022 yn £12.050m, sydd yn cyfateb i 8.2% o'r gyllideb refeniw net ar gyfer 2021/22. Mae hyn yn seiliedig ar y cyfrifon drafft a gallant newid ar ôl cwblhau'r archwiliad a'r cyfrifon terfynol. Roedd y Pwyllgor Gwaith wedi pennu isafswm o 5% o'r gyllideb refeniw net ar gyfer Balans y Gronfa Gyffredinol, a byddai hyn yn cyfateb i £7.4m. O ganlyniad, mae Balans y Gronfa Gyffredinol £4.650m yn uwch na'r lleiafswm hwn. Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi cymeradwyo gwario £0.500m o'r gronfa wrth gefn gyffredinol ar wella priffyrdd a bydd £0.261m yn cael ei drosglwyddo i gronfeydd wrth gefn gwasanaethau, yn unol â'r polisi cronfeydd wrth gefn gwasanaethau a gymeradwywyd yn 2019/20. Ar ôl gwneud yr ymrwymadau hyn, gwerth y gronfa wrth gefn gyffredinol yw £11.289m ac mae'n sefyllfa ariannol da ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd, gan mai £7.9m yw lleiafswm balans y Cyngor ar gyfer 2022/23.

5.2. Mae'r Cyngor wedi cael ei amddiffyn rhag effaith ariannol y pandemig yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf gan iddo dderbyn cyllid sylweddol gan Lywodraeth Cymru i gwrdd â chostau ychwanegol a gafwyd oherwydd Covid-19 a cholledion incwm. Daeth yr olaf o'r cyfyngiadau Covid-19 i ben ar 30 Mai 2022 ac mae cyllid gan Lywodraeth Cymru yn dod i ben. Nid yw'n eglur pa effaith fydd y pandemig yn ei gael ar y galw am wasanaethau'r Cyngor yn 2022/23. Cafodd y galw am wasanaethau ei ystumio dros dro gan y pandemig, ac roedd gwasanaethau a oedd yn tanwario fel arfer yn gorwario oherwydd bod gwasanaethau ar gau neu am fod llai o wasanaethau'n cael eu darparu. Roedd gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan y galw, sydd fel arfer yn rhoi pwysau ar gyllidebau, yn tanwario, megis prydau ysgol a gofal cymdeithasol plant. Er bod Covid-19 mewn cyfnod endemig erbyn hyn, heb unrhyw gyfyngiadau, mae'n debyg y bydd y galw yn uwch na'r arfer wrth i alw a oedd o'r golwg yn ystod y Pandemig ddod i'r amlwg. Bydd cronfeydd wrth gefn y Cyngor y gallir eu defnyddio yn helpu i leihau effaith cynnydd yn y galw yn y tymor byr.

5.3. Yn 2019/20, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith bolisi newydd ar gyfer cronfeydd wrth gefn gwasanaethau. Roedd hyn yn caniatáu i wasanaethau roi eu tanwariant net (sef hyd at 2.5% o gyllideb refeniw net y gwasanaeth neu £75k, pa un bynnag yw uchaf) mewn cronfa wrth gefn penodol eu gwasanaeth. Ar sail alldro 2021/22 a gweithredu'r cap ar lefel y cronfeydd wrth gefn, byddai cronfa wrth gefn bob gwasanaeth fel a ganlyn:-

Tabl 3

Lefel Arfaethedig Cronfeydd Wrth Gefn Gwasanaethau

Gwasanaeth	Lefel Arfaethedig cronfeydd wrth gefn cronnus gwasanaethau ar sail 2.5% o gyllideb net 2021/22 neu £75k, pa un bynnag yw'r uchaf £	% o Gyllideb Refeniw Net 2021/22	Balans Cronfa Wrth Gefn y Gwasanaeth ar 31 Mawrth 2022 £	Cynnydd / (Gostyngiad) Cronfeydd Wrth Gefn Gwasanaethau oherwydd perfformiad ariannol 2021/22 £
Dysgu (yn cynnwys Diwylliant ond heb gynnwys Ysgolion)	142,323	2.50%	136,814	5,509
Gwasanaethau Oedolion	314,124	1.13%	177,270	136,854
Gwasanaethau Plant	279,907	2.50%	274,280	5,627
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	401,984	2.50%	381,050	20,934
Tai	75,000	6.03%	36,760	38,240
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (yn cynnwys Morwrol a Hamdden)	108,799	2.50%	103,290	5,509
Trawsnewid (yn cynnwys AD a TGCh)	146,765	2.50%	124,970	21,795
Busnes y Cyngor	75,000	4.52%	52,770	22,230
Adnoddau	81,085	2.50%	77,070	4,015
Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Gwasanaethau Arfaethedig	1,624,987		1,364,274	260,713

6. CRONFEYDD WRTH GEFN CLUSTNODEDIG

6.1. Mae gan y Cyngor Gronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig er mwyn lliniaru risgiau posib yn y dyfodol, cwrdd â chynnydd yn y galw am rai gwasanaethau, cyllido prosiectau cyfalaf y dyfodol, cyllido gwelliannau mewn prosesau busnes a darparu gwasanaethau, nad ydynt yn cael eu cyllido yn y gyllideb refeniw flynyddol, ac i ddal grantiau a dderbyniwyd ond sydd heb eu gwario, ynghyd â chyfraniadau eraill. Mae dal cronfeydd wrth gefn clustnodedig yn elfen hanfodol o strategaeth ariannol y Cyngor i sicrhau fod gan y Cyngor lefel digonol o wydnwch ariannol i gwrdd â risgiau'r dyfodol, heriau ariannol ac i ganiatáu buddsoddi ychwanegol mewn asedau a gwasanaethau. Mae'r cronfeydd wrth gefn newydd a grëwyd yn ystod 2021/22 i'w gweld yn Nhabl 4, a gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo, yn ffurfiol, creu'r cronfeydd wrth gefn newydd hyn sydd werth cyfanswm o £9,371,065.

Tabl 4

Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig Newydd a Grëwyd yn ystod 2021/22

Gwasanaeth	Enw'r Gronfa Wrth Gefn	Cyfanswm Cronfa Wrth Gefn £	Rheswm dros greu cronfa Wrth Gefn Glustnodedig	Pwrpas y Gronfa Wrth Gefn
Gwasanaethau Oedolion	Cyfraniad at gyllidebau ar y cyd	10,000	Cefnogi gofynion cyfreithiol am gyllidebau ar y cyd	Cyfraniad at gostau gweinyddol yr awdurdod arweiniol wrth weinyddu'r gyllideb ar y cyd gwasanaethau Oedolion.
Rhaglen gyfalaf – Addysg, Pobl Ifanc a Sgiliau	Cronfa Ad-dalu Addysg ar gyfer Cyfarpar TGCh yn y dyfodol	300,000	Cyllido costau yn y dyfodol	Cyllido dyfeisiau newydd mewn ysgolion i gymryd lle dyfeisiau a gyllidwyd yn wreiddiol trwy Grant HWB Llywodraeth Cymru.
Rhaglen Gyfalaf – Addysg, Pobl Ifanc a Sgiliau	Canolfan Addysg y Bont – Gwaith ar y To	2,490,851	Cyllido gwaith trwsio'r to	Cyllido gwaith sylweddol ar y to yng Nghanolfan Addysg y Bont. Mae'r swm yn y gronfa wrth gefn yn adlewyrchu'r swm a ryddhawyd o'r balansau cyffredinol, ar ôl tynnu'r costau a gafwyd yn 2021/22.
Gwasanaethau Plant	Cymorthyddion Dysgu Gwasanaethau Plant	200,000	Helpu i wella deilliannau addysg ar gyfer plant	Ariannu cymorthyddion dysgu sy'n arbenigo mewn cefnogi plant sydd ag anghenion gofal cymdeithasol.
Corfforaethol	Setliad refereniw ychwanegol yn 2021/22 ar gyfer pwysau chwyddiant	2,256,150	Lliniaru effaith chwyddiant uchel	Darparu cyllid ychwanegol ar gyfer costau uwch oherwydd cynnydd mewn chwyddiant.
Corfforaethol	Cynllun Hyfforddeion	219,060	Cynllunio parhad ar gyfer swyddi allweddol yn y Cyngor	Darparu cyllid ar gyfer recriwtio nifer o Hyfforddeion ar draws y Cyngor a fydd yn cynorthwyo i ddarparu staff sydd wedi eu hyfforddi yn dda, a hynny mewn swyddi sy'n aml yn anodd recriwtio iddynt.
Cyllid Corfforaethol	Darpariaeth Refereniw Isaf (MRP) Ad-daliadau terfynol Benthyciad Salix	216,190	Cyllido taliadau MRP terfynol (nad oes cyllideb ar eu cyfer) ar y benthyciadau Salix a ohiriwyd	Darparwyd cyllid gan wasanaethau ar gyfer flwyddyn gyntaf o'r benthyciadau Salix diweddar a byddant yn darparu cyllid bob blwyddyn yn unol â'r cynllun gwreiddiol. Mae rhai prosiectau wedi llithro, ac arweiniodd hynny at oedi wrth dderbyn y benthyciadau a newidiadau yn amseriad yr ad-daliadau. Bydd cyllid gan y gwasanaethau ar gyfer yr ad-daliadau hyn a ohiriwyd yn cael eu cadw mewn cronfa wrth gefn tan y taliad olaf, fydd ddim yn derbyn cyllidebau gwasanaeth.
Economaidd a Rheoleiddio	Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWREF) – Adfer Economaidd yn dilyn Covid	764,271	Cyllido costau adfer yn dilyn Covid yn y dyfodol	Cyllido cefnogaeth a phrosiectau adfer economaidd NWREF.
Addysg, Pobl Ifanc a Sgiliau	Addysg Allsirol	500,000	Cyllido cynnydd posib yn y galw a phwysau chwyddiant	Cyllido cynnydd yn y galw neu bwysau chwyddiant mewn perthynas â phlant sydd mewn lleoliadau allsirol.
Tai	Cronfa Wrth Gefn Hamperi Nadolig	8,873	Cyllido costau yn y dyfodol	Cyllido hamperi Nadolig 2022.

Gwasanaeth	Enw'r Gronfa Wrth Gefn	Cyfanswm Cronfa Wrth Gefn £	Rheswm dros greu cronfa Wrth Gefn Glustnodedig	Pwrpas y Gronfa Wrth Gefn
Rheoleiddio ac Economaidd	Incwm net o'r Cydfenter, Unedau Diwydiannol Penrhos	7,818	Cynorthwyo i gwrdd â gofynion cytundeb Cydfenter	Casglu cyfran y Cyngor o incwm net blynyddol o osod Unedau Diwydiannol Penrhos er mwyn cyfrannu at gyllido prynu'r gyfran sydd ym mherchnogaeth Llywodraeth Cymru ar ôl 15 mlynedd o weithredu, yn unol â'r cytundeb cydfenter.
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Costau sefydlu Awdurdod Iechyd Porthladd	100,000	Cyllido costau sefydlu yn y dyfodol	Mae'r Cyngor wedi dod yn Awdurdod Iechyd Porthladd yn dilyn ymadawiad Prydain o'r Undeb Ewropeaidd. Bydd y gronfa wrth gefn hon yn cynorthwyo i gyllido costau sefydlu pan fyddant yn codi.
Adnoddau – Budd-daliadau	Taliadau dewisol costau byw	585,163	Cyllido'r gost o roi cynllun Llywodraeth Cymru ar waith	Derbyniwyd cyllid grant ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru cyn cyflwyno'r cynllun costau byw dewisol lleol.
Gwasanaethau Cymdeithasol	Pwysau Gofal Cymdeithasol	1,109,836	Cyllido costau posib yn y dyfodol	Cyllido costau gofal cymdeithasol posib yn y dyfodol sy'n codi oherwydd cynnydd yn y galw a / neu bwysau chwyddiant.
Gwasanaethau Cymdeithasol	Cerbydau Trydan Gwasanaethau Cymdeithasol	200,000	Cyllid ar gyfer rhoi polisi Llywodraeth Cymru ar gerbydau trydan ar waith	Prynu cerbydau trydan ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol, fel rhan o gyflawni targed carbon sero net y Cyngor erbyn 2030.
Trawsnewid	Cyllid ar gyfer costau sy'n codi o drosglwyddo staff a chontractau Cynnal i'r Cyngor	88,200	Cyllido costau posib yn y dyfodol	Defnyddir y gronfa wrth gefn i gyllido unrhyw gostau ychwanegol sy'n deillio o ddod â gwasanaethau cefnogaeth TGC Cynnal i ysgolion i ben.
Dysgu	Dysgu Cymunedol i Oedolion - Grant Cynnal a Digidol	100,415	Grant na chafodd ei ddefnyddio	Cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru na chafodd ei ddefnyddio yn 2021/22 ac a fydd yn cael ei ddefnyddio yn 2022/23.
Dysgu	Grant Strategaeth ADY	15,363	Grant na chafodd ei ddefnyddio	Cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru na chafodd ei ddefnyddio yn 2021/22 ac a fydd yn cael ei ddefnyddio yn 2022/23.
Dysgu	Grant ôl-16	69,394	Grant na chafodd ei ddefnyddio	Cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru na chafodd ei ddefnyddio yn 2021/22 ac a fydd yn cael ei ddefnyddio yn 2022/23.
Dysgu	Grant Cerddoriaeth mewn Ysgolion	129,481	Grant na chafodd ei ddefnyddio	Cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru na chafodd ei ddefnyddio yn 2021/22 ac a fydd yn cael ei ddefnyddio yn 2022/23.
	CYFANSWM	9,371,065		

6.2. Mae Atodiad 4 yn cynnwys manylion llawn am y cronfeydd wrth gefn clustnodedig ar 31 Mawrth 2022, ond maent yn cael eu crynhoi, yn ôl eu pwrpas, yn Nhabl 5 isod.

Tabl 5

Crynodeb o Gronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig fel ag yr oeddent ar 31 Mawrth 2022

	Balans Agoriadol ar 1 Ebrill 2021 £	Cyfraniadau I / (O) yn ystod 2021/22 £	Balans Cau ar 31 Mawrth 2022 £
Risgiau Corfforaethol a Gwasanaeth Parhaus	2,045,642	4,152,154	6,197,796
Risgiau Corfforaethol a Gwasanaeth Penodol	1,441,563	(1,032,949)	408,614
Cyllido Gwariant Cyfalaf yn y Dyfodol	2,123,307	3,876,599	5,999,906
Gwella Prosesau Busnes	1,038,391	(247,532)	790,859
Cyllidebau Hapddigwyddiadau heb eu defnyddio y mae eu hangen ar gyfer y dyfodol	713,077	38,695	751,772
Cronfeydd Wrth Gefn Dal Grantiau Cyfyngedig	2,009,641	1,464,057	3,473,698
Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig Eraill	648,992	10,915	659,907
Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig eraill ar gyfer prosiectau penodol	1,582,419	1,014,619	2,597,039
Cronfeydd Wrth Gefn heb eu cyfyngu sy'n dal Grantiau	2,276,815	(1,338,674)	938,141
Cronfeydd Wrth Gefn Gwasanaeth	1,576,030	(211,786)	1,364,244
CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN CLUSTNODEDIG	15,455,876	7,726,098	23,181,975

7. BALANSAU YSGOLION

7.1. Mae lefel balansau Ysgolion wedi cynyddu o £3.974m ar ddechrau'r flwyddyn ariannol i £7.827m ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae gan bob ysgol warged, yn cynnwys y tair ysgol oedd â diffyg y llynedd. Mae Tabl 6 isod yn crynhoi'r balansau fesul sector:-

Tabl 6
Crynodeb o Falansau Ysgolion

Sector	Balans ar 1 Ebrill 2021 £'000	Symudiad yn ystod y flwyddyn £'000	Balans Cau ar 31 Mawrth 2022 £'000
Cynradd	3,057	1,883	4,940
Uwchradd	977	1,812	2,789
Arbennig	(60)	158	98
CYFANSWM	3,974	3,853	7,827

7.2. Mae'r cynnydd o £3.853m ym malansau ysgolion yn sylweddol ac mae'n adlewyrchu patrwm a nodwyd gan awdurdodau eraill. Y rhesymau am y cynnydd yw grantiau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ac effaith parhaus Covid-19 ar y galw yn 2021.

8. BALANS Y CYFRIF REFENIW TAI

8.1. Balans agoriadol y Cyfrif CRT ar 1 Ebrill 2021 oedd £9.723m. Yn ystod y flwyddyn, cynhyrchwyd gwarged o £7.829m ar weithgareddau refeniw a gwariwyd £5.219m (heb gynnwys grantiau) ar waith cyfalaf a phrynu / datblygu eiddo newydd. Rhydd hyn warged net o £2.610m gan gynyddu balans y Cyfrif CRT i £12.333m. Mae'r balans hwn ar gael i gyllido buddsoddiad yn stoc y CRT yn y dyfodol.

DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2022

2021/22			Gwasanaethau	Nodyn	2020/21		
Gwariant Gros £'000	Incwm Gros £'000	Gwariant Net £'000			Gwariant Gros £'000	Incwm Gros £'000	Gwariant Net £'000
77,393	(18,415)	58,978	Dysgu Gydol Oes		70,172	(16,017)	54,155
46,598	(16,887)	29,711	Gwasanaethau Oedolion		43,090	(14,175)	28,915
18,826	(6,201)	12,625	Gwasanaethau Plant		14,914	(4,141)	10,773
8,214	(6,484)	1,730	Tai		7,373	(6,091)	1,282
31,519	(9,192)	22,327	Prifffyrdd, Eiddo a Gwastraff		28,647	(9,055)	19,592
14,734	(9,333)	5,401	Rheoleiddio a Datblygu Economaidd		11,420	(6,513)	4,907
6,653	(291)	6,362	Trawsnewid		5,754	(416)	5,338
31,969	(22,723)	9,246	Adnoddau		34,142	(25,642)	8,500
2,337	(427)	1,910	Busnes y Cyngor		1,962	(334)	1,628
2,996	(781)	2,215	Costau Corfforaethol a Democrataidd		3,843	(1,792)	2,051
588	-	588	Rheolaeth Gorfforaethol		522	-	522
26	-	26	Costau heb eu dosbarthu		7	-	7
16,029	(19,457)	(3,428)	Cyfrif Refeniw Tai (CRT)		18,358	(19,080)	(722)
257,882	(110,191)	147,691	Diffyg ar Weithrediadau sy'n Parhau		240,204	(103,256)	136,948
		17,076	Gwariant Gweithredol arall	11			14,801
		9,559	Incwm a gwariant cyllido a buddsoddi	12a			9,405
		(180,266)	Trethi ac incwm grant amhenodol	13			(171,473)
		(5,940)	(Gwarged) / Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau				(10,319)
		(5,412)	Gwarged ar ailbrizio asedau nad ydynt yn gyfredol	10c			(10,039)
		(72,063)	Ail-fesur rhwymedigaethau Pensiwn net	10c & 41			44,483
		(77,475)	Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall				34,444
		(83,415)	Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr				24,125

ATODIAD 3

MANTOLEN FEL AG YR OEDD AR 31 MAWRTH 2022

	Nodyn	31 Mawrth 2022 £'000	31 Mawrth 2021 £'000
Eiddo, offer a chyfarpar	14	442,507	431,263
Asedau treftadaeth	16	2,283	2,265
Eiddo buddsoddi	17	6,117	5,619
Asedau anniriaethol		472	505
Dyledwyr tymor hir	22	109	111
Asedau tymor hir		451,488	439,763
Asedau a ddelir i'w gwerthu	19	672	461
Rhestrau stoc	21	296	339
Dyledwyr tymor byr	22	36,021	34,283
Buddsoddiadau tymor byr	41a	7,500	-
Arian a chywerthoedd arian	23	44,478	28,740
Asedau Cyfredol		88,967	63,823
Benthyca tymor byr	41	(4,564)	(2,158)
Credydwyr tymor byr	24	(31,142)	(28,035)
Darpariaethau tymor byr	25	(504)	(363)
Derbyniadau grantiau ymlaen llaw	34	(7,990)	(3,509)
Rhwymedigaethau Cyfredol		(44,200)	(34,065)
Credydwyr tymor hir	24	(163)	(156)
Darpariaethau tymor hir	25	(4,639)	(4,684)
Benthyca tymor hir	41	(122,677)	(124,258)
Rhwymedigaethau tymor hir eraill	38	(121,199)	(176,261)
Rhwymedigaethau tymor hir		(248,678)	(305,359)
Asedau Net		247,577	164,162
Cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio	MIRS	57,772	39,980
Cronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio	10	189,805	124,182
Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn		247,577	164,162

ATODIAD 4

CRONFEYDD WRTH GEFN CLUSTNODEDIG AR 31 MAWRTH 2022

Gwasanaeth	Categori	Cronfa Wrth Gefn	Disgrifiad	Newydd yn 2021/22	Balans ar 1 Ebrill 2021 £	Symudiad yn ystod y Flwyddyn £	Balans ar 31 Mawrth 2022 £	Wedi'i ymrwymo / Gofynnol ar gyfer Risgiau Posibl yn y Dyfodol £	Ar gael i'w ddefnyddio £
Corfforaethol	Risg Gorfforaethol sy'n Parhau	Yswiriant	Talu am golledion heb eu hyswirio a thaliadau dros ben polisïau yswiriant.	Na	1,250,000	90,732	1,340,732	1,250,000	90,732
Dysgu	Risg Gwasanaeth sy'n Parhau	Cynllun Salwch Ysgolion Cynradd	Talu costau salwch mewn ysgolion cynradd. Mae pob ysgol sy'n cymryd rhan yn talu premiwm i'r gronfa wrth gefn.	Na	129,857	221,082	350,939	350,939	0
Eiddo	Risg Gwasanaeth sy'n Parhau	Cynllun Trwsio a Chynnal a Chadw Ysgolion Cynradd	Mae balans y cyllid na chafodd ei ddefnyddio yn cael ei ddal i gwrdd â chostau uwch posib yn y dyfodol.	Na	25,647	(25,647)	0	0	0
Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Risg Gwasanaeth sy'n Parhau	Gwaith Cynnal a Chadw yn ystod y Gaeaf	Cyllido costau gritio / llifogydd sy'n uwch na'r disgwyl yn ystod tywydd garw'r gaeaf.	Na	94,480	0	94,480	94,480	0
Gwasanaethau Plant	Risg Gwasanaeth sy'n Parhau	Contractau Staff Gofal Cymdeithasol	Cyllido costau ychwanegol asiantaethau staffio os oes angen adnoddau staffio ychwanegol oherwydd bod y nifer sydd angen gofal yn cynyddu.	Na	271,714	0	271,714	271,714	0
Dysgu a Gwasanaethau Plant	Risg Gwasanaeth sy'n Parhau	Cronfa Wrth Gefn Cyllido ar y Cyd	Darparu ar gyfer y posibilrwydd o gollu incwm gan gyrff cyhoeddus eraill sy'n cyllido ar y cyd. Ni ellir ei gynnwys fel rhan o'r ddarpariaeth dyledion drwg.	Na	180,795	0	180,795	180,795	0
Dysgu	Risg Gwasanaeth sy'n Parhau	Cronfa Wrth Gefn Cau Ysgolion	Cyllido cost adeiladau gwag / costau sefydlu ysgolion newydd.	Na	93,149	0	93,149	93,149	0

Gwasanaeth	Categori	Cronfa Wrth Gefn	Disgrifiad	Newydd yn 2021/22	Balans ar 1 Ebrill 2021 £	Symudiad yn ystod y Flwyddyn £	Balans ar 31 Mawrth 2022 £	Wedi'i ymrwymo / Gofynnol ar gyfer Risgiau Posibl yn y Dyfodol £	Ar gael i'w ddefnyddio £	
Gwasanaethau Oedolion a Phlant	Risg Gwasanaeth sy'n Parhau	Pwysau Gofal Cymdeithasol	Cyllido costau gofal cymdeithasol posib yn y dyfodol sy'n deillio o gynnydd yn y galw a / neu bwysau oherwydd chwyddiant.	Ydi	0	1,109,836	1,109,836	1,109,836	0	
Corfforaethol	Risg Gorfforaethol sy'n Parhau	Setliad refereniw ychwanegol yn 2021/22 ar gyfer pwysau oherwydd chwyddiant	Darparu cyllid ychwanegol ar gyfer costau uwch oherwydd cynnydd mewn chwyddiant.	Ydi	0	2,256,150	2,256,150	2,256,150	0	
Dysgu	Risg Gwasanaeth sy'n Parhau	Addysg Allsirol	Cyllido cynnydd yn y galw neu bwysau oherwydd chwyddiant ar gyfer plant sydd mewn lleoliadau allsirol.	Ydi	0	500,000	500,000	500,000	0	
CYFANSWM COSTAU RISGIAU CORFFORAETHOL A GWASANAETH SY'N PARHAU						2,045,642	4,152,154	6,197,796	6,107,064	90,732
Dysgu	Risg Gwasanaeth Penodol	Rhesymoli Ysgolion	Cwrdd â chostau ychwanegol sy'n codi o foderneiddio ysgolion, gan gynnwys costau diswyddo.	Na	301,946	(111,029)	190,917	190,917	0	
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Risg Gwasanaeth Penodol	Cynllun Datblygu Lleol	Cyllido costau ychwanegol cynhyrchu'r cynllun datblygu nesaf.	Na	152,697	0	152,697	152,697	0	
Corfforaethol	Risg Gorfforaethol Benodol	Tâl Cyfartal	Cyllido costau unrhyw hawliadau sy'n weddill, gan gynnwys ffioedd cyfreithiol a ffioedd proffesiynol eraill.	Na	47,012	(47,012)	0	0	0	
Corfforaethol	Risg Gorfforaethol Benodol	Dyfarniad Cyflog	Cwrdd â chost dyfarniad cyflog sydd yn uwch na'r swm a ganiatawyd yng nghyllideb 2021/22.	Na	485,850	(485,850)	0	0	0	
Dysgu	Risg Gwasanaeth Penodol	Ad-dalu Ffyrlo	Cwrdd â chost ad-daliad y cytunwyd arno i Gronfa Caledi LIC yn codi o daliadau ffyrlo i staff arlwygo.	Na	399,114	(399,114)	0	0	0	
Dysgu	Risg Gwasanaeth Penodol	Melin Llynonn	Cyllido cost gwaith adfer ar y Felin.	Na	54,945	10,055	65,000	65,000	0	

Gwasanaeth	Categori	Cronfa Wrth Gefn	Disgrifiad	Newydd yn 2021/22	Balans ar 1 Ebrill 2021 £	Symudiad yn ystod y Flwyddyn £	Balans ar 31 Mawrth 2022 £	Wedi'i ymrwmo / Gofynnol ar gyfer Risgiau Posibl yn y Dyfodol £	Ar gael i'w ddefnyddio £
CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN RISGIAU CORFFORAETHOL A GWASANAETH PENODOL					1,441,563	(1,032,949)	408,614	408,614	0
Corfforaethol	Gwariant Cyfalaf yn y Dyfodol	Cyfraniadau Refeniw heb eu Cymhwyso	Defnyddir fel ffynhonnell cyllid cyfalaf pryd a phan fydd angen.	Na	1,206,728	899,829	2,106,556	2,106,556	0
Dysgu	Gwariant Cyfalaf yn y Dyfodol	Addysg – Symiau Cymudo	Symiau a glustnodwyd gan ddatblygwyr. Byddant yn cael eu defnyddio yn unol â'r cytundeb.	Na	129,425	90,511	219,936	219,936	0
Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Gwariant Cyfalaf yn y Dyfodol	Cyfraniadau Datblygwr – Prifffyrdd	Symiau a glustnodwyd gan ddatblygwyr. Byddant yn cael eu defnyddio yn unol â'r cytundeb.	Na	25,000	95,408	120,408	120,408	0
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Gwariant Cyfalaf yn y Dyfodol	Hamdden (Hawliad TAW)	Cyllido buddsoddiad cyfalaf yn y Canolfannau Hamdden yn y dyfodol.	Na	762,154	0	762,154	762,154	0
Dysgu	Gwariant Cyfalaf yn y Dyfodol	Cronfa Ad-dalu TG Ysgolion	Cyllido dyfeisiau newydd mewn ysgolion i gymryd lle dyfeisiau a gyllidwyd yn wreiddiol trwy Grant HWB Llywodraeth Cymru.	Ydi	0	300,000	300,000	300,000	0
Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Gwariant Cyfalaf yn y Dyfodol	Trwsio To Canolfan Addysg y Bont	Cyllido gwaith sylweddol ar y to yng Nghanolfan Addysg y Bont. Mae'r swm yn y gronfa wrth gefn yn adlewyrchu'r swm a ryddhawyd o'r balansau cyffredinol, ar ôl tynnu'r costau a gafwyd yn 2021/22.	Ydi	0	2,490,851	2,490,851	2,490,851	0
CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN GWARIANT CYFALAF YN Y DYFODOL					2,123,307	3,876,599	5,999,906	5,999,906	0
Corfforaethol	Gwella Prosesau Busnes	Cost Newid	Cronfa wrth gefn gyffredinol sydd wedi cyllido prosesau gwella busnes.	Na	231,828	(50,093)	181,735	0	181,735
Gwasanaethau Oedolion a Phlant	Gwella Prosesau Busnes	Trawsnewid Gwasanaethau	Cyllid ar gyfer prosiectau trawsnewid yn y gwasanaethau cymdeithasol.	Na	32,525	(32,525)	0	0	0

Gwasanaeth	Categori	Cronfa Wrth Gefn	Disgrifiad	Newydd yn 2021/22	Balans ar 1 Ebrill 2021 £	Symudiad yn ystod y Flwyddyn £	Balans ar 31 Mawrth 2022 £	Wedi'i ymrwymo / Gofynnol ar gyfer Risgiau Posibl yn y Dyfodol £	Ar gael i'w ddefnyddio £
Adnoddau	Gwella Prosesau Busnes	Diweddarau systemau Refeniw a Budd-daliadau	Cyllido gwelliannau yn y systemau casglu incwm corfforaethol.	Na	24,762	(24,762)	0	0	0
Corfforaethol	Gwella Prosesau Busnes	Buddsoddi i Arbed	Balans yr £1m a ddyrannwyd yn 2016/17 i gyllido prosiectau penodol. Balans heb ei ddefnyddio – CRM £47k, System Gynllunio £8k, Systemau Arian £25k, Gwefan yr Oriol £11k, Staff TG dros dro £47k, system Gwarchod y Cyhoedd £45k.	Na	183,856	(140,152)	43,704	43,704	0
Corfforaethol	Gwella Prosesau Busnes	Adfer yn dilyn Covid	£115k o gyllidebau teithio na chafodd eu defnyddio yn 2020/21, £250k o Barc Adfer, £200k o Gyfraniadau Refeniw na chafodd eu cymhwyso.	Na	565,420	0	565,420	0	565,420
CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN GWELLA BUSNES					1,038,391	(247,532)	790,859	43,704	747,155
Tai	Cyllidebau Hapddigwyddiadau na chafodd eu defnyddio	Tai Fforddiadwy	Balans y premiwm ar ail gartrefi a thai gwag na chafodd ei ddefnyddio.	Na	453,667	(32,299)	421,368	421,368	0
Corfforaethol	Cyllidebau Hapddigwyddiadau na chafodd eu defnyddio	Cronfeydd Hapddigwyddiadau Cyfyngedig	Balans cyllidebau corfforaethol na chafodd eu defnyddio sydd ei angen fel cyfraniad at brosiect STEM a Bid Tŵf GC.	Na	259,410	70,994	330,404	330,404	0
CYFANSWM CYLLIDEBAU HAPDDIGWYDDIADAU NA CHAFODD EU DEFNYDDIO					713,077	38,695	751,772	751,772	0
Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig sy'n dal Grantiau	Cronfa Wrth Gefn Gwastraff / Ailgylchu	Mae Grant yr Economi Gylchol wedi cymryd lle y gyllideb graidd. Arbedion o'r gyllideb graidd i'w cadw mewn cronfa wrth gefn i dalu am brosiectau gwyrdd.	Na	500,000	0	500,000	0	500,000

Gwasanaeth	Categori	Cronfa Wrth Gefn	Disgrifiad	Newydd yn 2021/22	Balans ar 1 Ebrill 2021 £	Symudiad yn ystod y Flwyddyn £	Balans ar 31 Mawrth 2022 £	Wedi'i ymrwymo / Gofynnol ar gyfer Risgiau Posibl yn y Dyfodol £	Ar gael i'w ddefnyddio £
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig sy'n dal Grantiau	Priffordd Maes Awyr	Grant Maes Awyr Môn na chafodd ei ddefnyddio.	Na	69,518	(29,085)	40,433	69,518	0
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig sy'n dal Grantiau	Cronfa Wrth Gefn Gyfyngedig Grantiau Priffyrdd – Grant Llifogydd	Grant llifogydd na chafodd ei ddefnyddio – gellir ei ddefnyddio fel cyllid cyfatebol neu i gyllido costau reffeniw. Angen gwirio gyda'r gwasanaeth.	Na	36,473	0	36,473	36,473	0
Trawsnewid	Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig sy'n dal Grantiau	SCWDP	Grant na chafodd ei ddefnyddio.	Na	5,596	(5,596)	0	0	0
Tai	Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig sy'n dal Grantiau	Gweinyddu Cefnogi Pobl	Grant na chafodd ei ddefnyddio sy'n cyllido costau staff cefnogi pobl ychwanegol nad yw'r grant yn eu talu.	Na	559,489	(4,544)	554,945	554,945	0
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig sy'n dal Grantiau	Isadeiledd Arosfannau Bysiau	Grant na chafodd ei ddefnyddio.	Na	85,671	0	85,671	85,671	0
Dysgu	Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig sy'n dal Grantiau	Grantiau Ysgolion Bach ac Ysgolion Gwledig	Grant na chafodd ei ddefnyddio – i'w ddefnyddio yn 2021/22.	Na	33,244	(9,323)	23,921	23,921	0
Dysgu	Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig sy'n dal Grantiau	Diogelwch Covid mewn Ysgolion	Grant na chafodd ei ddefnyddio – i'w ddefnyddio yn 2021/22.	Na	103,426	(94,370)	9,056	9,056	0
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig sy'n dal Grantiau	Coridor Gwyrdd	Grant na chafodd ei ddefnyddio – i'w ddefnyddio yn 2021/22.	Na	85,000	(85,000)	0	0	0

Gwasanaeth	Categori	Cronfa Wrth Gefn	Disgrifiad	Newydd yn 2021/22	Balans ar 1 Ebrill 2021 £	Symudiad yn ystod y Flwyddyn £	Balans ar 31 Mawrth 2022 £	Wedi'i ymrwymo / Gofynnol ar gyfer Risgiau Posibl yn y Dyfodol £	Ar gael i'w ddefnyddio £
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig sy'n dal Grantiau	Grant Stormydd	Grant na chafodd ei ddefnyddio – i'w ddefnyddio yn 2021/22.	Na	186,316	(39,825)	146,491	146,491	0
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig sy'n dal Grantiau	Grant AHNE	Grant na chafodd ei ddefnyddio – i'w ddefnyddio yn 2021/22.	Na	14,261	(14,261)	0	0	0
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig sy'n dal Grantiau	Grant Iechyd Cyhoeddus Cymru – Beiciau Sbin	Grant na chafodd ei ddefnyddio – i'w ddefnyddio yn 2021/22.	Na	17,000	(17,000)	0	0	0
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig sy'n dal Grantiau	Cydllynydd Clefyd Coed Ynn	Grant na chafodd ei ddefnyddio – i'w ddefnyddio yn 2021/22.	Na	24,775	(24,775)	0	0	0
Busnes y Cyngor	Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig sy'n dal Grantiau	Diwygio Etholiadau	Grant na chafodd ei ddefnyddio – i'w ddefnyddio yn 2021/22.	Na	21,000	(9,770)	11,230	11,230	0
Dysgu	Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig sy'n dal Grantiau	TRAC	Grant na chafodd ei ddefnyddio.	Na	267,872	(66,480)	201,392	201,392	0
Dysgu	Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig sy'n dal Grantiau	Dysgu Cymunedol i Oedolion – Grant Cynnal a Digidol	Grant na chafodd ei ddefnyddio.	Ydi	0	100,415	100,415	100,415	0
Dysgu	Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig sy'n dal Grantiau	Strategaeth ADY	Grant na chafodd ei ddefnyddio.	Ydi	0	15,363	15,363	15,363	0
Dysgu	Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig sy'n dal Grantiau	Ōl-16	Grant na chafodd ei ddefnyddio.	Ydi	0	69,394	69,394	69,394	0

Gwasanaeth	Categori	Cronfa Wrth Gefn	Disgrifiad	Newydd yn 2021/22	Balans ar 1 Ebrill 2021 £	Symudiad yn ystod y Flwyddyn £	Balans ar 31 Mawrth 2022 £	Wedi'i ymrwymo / Gofynnol ar gyfer Risgiau Posibl yn y Dyfodol £	Ar gael i'w ddefnyddio £
Dysgu	Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig sy'n dal Grantiau	Cerddoriaeth mewn Ysgolion	Grant na chafodd ei ddefnyddio.	Ydi	0	129,481	129,481	129,481	0
Adnoddau	Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig sy'n dal Grantiau	Taliadau Dewisol Costau Byw	Grant na chafodd ei ddefnyddio.	Ydi	0	585,163	585,163	585,163	0
Gwasanaethau Oedolion	Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig sy'n dal Grantiau	Cerbydau Trydan	Cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru na chafodd ei wario cyn diwedd y flwyddyn ariannol.	Ydi	0	200,000	200,000	200,000	0
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig sy'n dal Grantiau	Grant Adfer Economaidd	Grant na chafodd ei ddefnyddio.	Ydi	0	764,271	764,271	764,271	0
CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN CYFYNGEDIG SY'N DAL GRANTIAU					2,009,641	1,464,057	3,473,698	2,973,698	500,000
Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig Eraill	Incwm Proses Ailgylchu	Amod y Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy yw bod incwm o ailgylchu yn cael ei ddefnyddio i gyllido costau / prosiectau ailgylchu. Dyma falans yr incwm na chafodd ei ddefnyddio. Mae angen i'r gwasanaeth benderfynu sut i'w ddefnyddio.	Na	635,130	0	635,130	635,130	0
Dysgu	Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig Eraill	Cronfa Brynu'r Amgueddfa	Rhoddion i'r Oriol er mwyn prynu eitemau newydd. Nid yw'r arian ar gael i gyllido gwariant y Cyngor.	Na	7,301	4,043	11,363	11,363	0
Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig Eraill	Ffioedd y Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy (SAB)	Ffioedd ceisiadau cynllunio i'w defnyddio i gyllido costau yn y dyfodol mewn perthynas â'r ceisiadau.	Na	6,560	(2,020)	4,540	4,540	0

Gwasanaeth	Categori	Cronfa Wrth Gefn	Disgrifiad	Newydd yn 2021/22	Balans ar 1 Ebrill 2021 £	Symudiad yn ystod y Flwyddyn £	Balans ar 31 Mawrth 2022 £	Wedi'i ymrwymo / Gofynnol ar gyfer Risgiau Posibl yn y Dyfodol £	Ar gael i'w ddefnyddio £
Tai	Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig Eraill	Hamperi Nadolig y Gwasanaeth Tai	Cyllido Hamperi Nadolig 2022.	Ydi	0	8,873	8,873	8,873	0
CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN CYFYNGEDIG ERAILL					648,992	10,915	659,907	659,907	0
Adnoddau a Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Cronfeydd Wrth Gefn heb eu Cyfyngu sy'n dal Grantiau	Ffi Gweinyddu Grantiau Busnes Covid	Balans y Grant gan Lywodraeth Cymru i gwrdd â chostau ychwanegol a gafwyd wrth brosesu Grantiau Busnes Covid. Mae'n cael ei ddefnyddio i gyllido adnoddau ychwanegol i ddelio â gwaith sydd wedi pentyrru.	Na	319,801	(319,801)	0	0	0
Adnoddau	Cronfeydd Wrth Gefn heb eu cyfyngu sy'n dal Grantiau	Ffi Weinyddol Taliadau Hunan ynysu	Grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer costau prosesu taliadau hunan ynysu. Ar hyn o bryd, mae'n cyllido aelod ychwanegol o staff.	Na	25,781	45,032	70,813	70,813	0
Corfforaethol	Cronfeydd Wrth Gefn heb eu Cyfyngu sy'n dal Grantiau	Trawsnewid Digidol	Grant gan Lywodraeth Cymru i gyllido prosiectau i wella trawsnewid digidol.	Na	581,304	(497,347)	83,957	0	83,957
Corfforaethol	Cronfeydd Wrth Gefn heb eu Cyfyngu sy'n dal Grantiau	Cefnogi Arbedion	Grant gan Lywodraeth Cymru i helpu i gyllido unrhyw ddiffyg yn y gyllideb sy'n deillio o anawsterau a wynebwyd gan Gynghorau yn 2020/21 i gyflawni arbedion cyllidebol a gynlluniwyd.	Na	581,304	(581,304)	0	0	0
Corfforaethol	Cronfeydd Wrth Gefn heb eu Cyfyngu sy'n dal Grantiau	Cyllid Caledi Covid - Casglu'r Dreth Gyngor	Grant gan Lywodraeth Cymru i ddigolledu colledion incwm y Dreth Gyngor oherwydd cynnydd posib mewn dyledion y mae'n rhaid eu dileu oherwydd Covid.	Na	768,625	14,746	783,371	783,371	0
CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN HEB EU CYFYNGU SY'N DAL GRANTIAU					2,276,815	(1,338,674)	938,141	854,184	83,957

Gwasanaeth	Categori	Cronfa Wrth Gefn	Disgrifiad	Newydd yn 2021/22	Balans ar 1 Ebrill 2021 £	Symudiad yn ystod y Flwyddyn £	Balans ar 31 Mawrth 2022 £	Wedi'i ymrwymo / Gofynnol ar gyfer Risgiau Posibl yn y Dyfodol £	Ar gael i'w ddefnyddio £
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd ar gyfer Prosiectau Penodol yn y Dyfodol	Cronfa Wrth Gefn Trwyddedau	Cyllido meddalwedd newydd trwyddedau ond ni nodwyd unrhyw feddalwedd addas.	Na	16,570	(16,570)	0	0	0
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd ar gyfer Prosiectau Penodol yn y Dyfodol	Cronfa Wrth Gefn Ynys Ynni	Cyllido cost asesu a chefnogi datblygiadau Ynys Ynni yn y dyfodol.	Na	179,887	89,133	269,020	269,020	0
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd ar gyfer Prosiectau Penodol yn y Dyfodol	Cronfa Wrth Gefn Datblygiadau Mawr	Balans y cyllid a ddefnyddiwyd mewn perthynas ag amser Prif Swyddogion trwy'r Cytundeb Perfformiad Cynllunio.	Na	177,352	0	177,352	177,352	0
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd ar gyfer Prosiectau Penodol yn y Dyfodol	Datblygiadau Mawr – Ffioedd Cynllunio	Dyma'r ffioedd cynllunio ychwanegol o ddatblygiadau mawr, a fyddai wedi cyllido'r gost o ddelio gyda cheisiadau yn y dyfodol.	Na	392,456	0	392,456	392,456	0
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd ar gyfer Prosiectau Penodol yn y Dyfodol	Gwaith Archeolegol yn Wylfa	Cyfraniad olaf gan Horizon i gyllido gwaith yn y dyfodol.	Ydi	625,000	0	625,000	625,000	0

Gwasanaeth	Categori	Cronfa Wrth Gefn	Disgrifiad	Newydd yn 2021/22	Balans ar 1 Ebrill 2021 £	Symudiad yn ystod y Flwyddyn £	Balans ar 31 Mawrth 2022 £	Wedi'i ymrwymo / Gofynnol ar gyfer Risgiau Posibl yn y Dyfodol £	Ar gael i'w ddefnyddio £
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd ar gyfer Prosiectau Penodol yn y Dyfodol	Astudiaeth Dichonoldeb – Ysgol Uwchradd Caergybi	Cyllido cost asesiad pellach o gyflwr y to yn Ysgol Uwchradd Caergybi.	Ydi	15,000	0	15,000	15,000	0
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd ar gyfer Prosiectau Penodol yn y Dyfodol	Model Rhagfynegi Dŵr Ymdrochi	Talu costau cynnal a chadw'r offer monitro.	Na	9,725	(440)	9,285	9,285	0
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd ar gyfer Prosiectau Penodol yn y Dyfodol	Medruswydd a Chapasiti Cynllunio	Mae'n rhaid ail-fuddsoddi canran o'r ffioedd cynllunio yn y gwasanaeth cynllunio.	Na	166,429	101,228	267,657	267,657	0
Trawnewid – AD	Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd ar gyfer Prosiectau Penodol yn y Dyfodol	Cynllun Hyfforddeion	Darparu cyllid ar gyfer recriwtio nifer o Hyfforddeion ar draws y Cyngor a fydd yn cynorthwyo i ddarparu staff sydd wedi eu hyfforddi yn dda, a hynny mewn swyddi sy'n aml yn anodd recriwtio iddynt.	Ydi	0	219,060	219,060	219,060	0
Trawsnewid	Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd ar gyfer Prosiectau Penodol yn y Dyfodol	Cynnal	Defnyddir y gronfa wrth gefn i gyllido unrhyw gostau ychwanegol sy'n deillio o ddod â gwasanaethau cefnogi TGCh Cynnal ar gyfer ysgolion i ben.	Ydi	0	88,200	88,200	88,200	0
Gwasanaethau Cymdeithasol – Gwasanaethau Oedolion	Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd ar gyfer Prosiectau Penodol yn y Dyfodol	Ffi Weinyddol Cronfa ar y Cyd	Cyfraniad at gostau gweinyddol y corff arweiniol ar gyfer gweinyddu cronfa ar y cyd Gwasanaethau Oedolion.	Ydi	0	10,000	10,000	10,000	0

Gwasanaeth	Categori	Cronfa Wrth Gefn	Disgrifiad	Newydd yn 2021/22	Balans ar 1 Ebrill 2021 £	Symudiad yn ystod y Flwyddyn £	Balans ar 31 Mawrth 2022 £	Wedi'i ymrwymo / Gofynnol ar gyfer Risgiau Posibl yn y Dyfodol £	Ar gael i'w ddefnyddio £
Gwasanaethau Plant	Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd ar gyfer Prosiectau Penodol yn y Dyfodol	Cyfraniad at Gymorthyddion Dysgu y Gwasasnaethau Plant	Cyllido cymorthyddion dysgu sy'n arbenigo mewn cefnogi plant ag anghenion gofal cymdeithasol.	Ydi	0	200,000	200,000	200,000	0
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd ar gyfer Prosiectau Penodol yn y Dyfodol	Ad-daliad Cyd-fenter Stad Ddiwydiannol Caerdybi	Casglu cyfran y Cyngor o'r incwm net blynyddol o osod unedau Diwydiannol Penrhos er mwyn cyfrannu at gyllido prynu'r gyfran sydd ym mherchnogaeth Llywodraeth Cymru ar ôl 15 mlynedd o weithredu, yn unol â'r cytundeb cyd-fenter.	Ydi	0	7,818	7,818	7,818	0
Rheoleiddio - Gwarchod y Cyhoedd	Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd ar gyfer Prosiectau Penodol yn y Dyfodol	Sefydlu Awdurdod Iechyd Porthladd	Mae'r Cyngor wedi dod yn Awdurdod Iechyd Porthladd yn dilyn ymadawiad Prydain o'r Undeb Ewropeaidd. Bydd y gronfa wrth gefn hon yn cynorthwyo i gyllido costau sefydlu pan fyddant yn codi.	Ydi	0	100,000	100,000	100,000	0
Corfforaethol	Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd ar gyfer Prosiectau Penodol yn y Dyfodol	Ad-dalu benthygiad Salix	Cyllido taliadau MRP terfynol (nad oes cyllideb ar eu cyfer) ar fenthyciadau Salix a ohiriwyd.	Ydi	0	216,190	216,190	216,190	0
CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN A GLUSTNODWYD AR GYFER PROSIECTAU PENODOL					1,582,419	1,014,619	2,597,039	2,597,039	0
CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN CLUSTNODEDIG					13,879,847	7,937,884	21,817,731	20,395,887	1,421,844